

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 3ydd 2016 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Gethin Morris, Iolo Evans, Alwyn Jones, Gwenda Morris a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwenda Evans, Tina Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cyfarfod Blynyddol.

Croesawyd Gary Thomas i'r gadair a diolchwyd i Eilir Rowlands am ei waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Etholwyd Gwenda Morris yn is-gadeirydd.

Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Alwyn Roberts yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr i ddiolch iddo am ei ymroddiad yn ystod ei gyfnod ar y Cyngor. Cytunwyd i hysbysu Cyngor Gwynedd am y sedd wag.

a) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn: Eifion Davies a Gethin Morris.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands
Llywodraethwyr Ysgol Ffridd Y Llyn: Eifion Davies
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones

b) Cyfrifon 2015-16.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2015-16 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

c) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd a chytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

ch) Adolygu Asedau, Cofrestr Datgan Buddiant Aelodau, Polisiau a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol, Asesiad Risg a'r Gofrestr Datgan Buddiant Aelodau presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio sied mynwent Llandderfel a'r llochesi bws ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i fabwysiadu'r newidiadau i'r 'Cod Ymddygiad' a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Roedd newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol i'w mabwysiadu ond gan fod Un Llais wedi adalw eu model cytunwyd i'w fabwysiadu pan fydd y model cywir ar gael.

d) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Cytunwyd i wneud fan newidiadau i'r ffioedd presennol.

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Cyfarfod Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd.

Trafodwyd yr hyn a gyflwynwyd i'r cynghorwyr yn y cyfarfod.

ii) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

- a) Sbwriel ar hyd ochr y ffordd ym Methel - roedd y gwaith o godi'r sbwriel wedi ei drefnu.
- b) Bin sbwriel cyhoeddus ym mhentref Sarnau - diolchwyd i'r Cyngor am amlygu'r sefyllfa ac roeddent am gadw golwg ar y safle. Cafwyd trafodaeth bellach a gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn a oedd posib ail leoli'r bin yn agosach i'r anheddau a oedd yn ei ddefnyddio.
- c) Dwr yn hel ar y ffordd rhwng Coed Foel Uchaf a Thair Felin, Frongoch - roedd yr Arolygwr wedi asesu'r safle ac os bydd cyllid ar gael byddant yn adnewyddu'r cylfat.
- ch) Dwr yn hel ar gornel Gorseddau, Cwmtirmynach – roedd yr Arolygwr wedi trefnu i wneud gwelliannau i waredu a'r broblem.
- d) Cerrig yn disgyn o'r wal o flaen y lloches bws yng Nghefnddwysarn – roedd trefniadau wedi cael eu gwneud i adnewyddu'r wal.
- dd) Gosod rhwystrau gwrthdaro ar y B4401 ger Crogen Landrillo - roedd y mater wedi cael ei gyfeirio at yr adran Trafnidiaeth a Gofal Stryd yng Ngaernarfon.
- e) Gwrych Maes Carafanau Cefnddwysarn – roedd yr Arolygwr wedi gofyn i'r perchnogion i dorri'r gwrych.
- f) Canghennau yn dod drosodd i'r ffordd rhwng Llandderfel a Chefnddwysarn – roedd yr arolygwr wedi trefnu i dorri'r canghennau.
- ff) Golau stryd Stad Tan y Foel, Llanfor – roedd y gweithlu wedi atgyweirio'r golau.
- g) Clirio'r ffosydd ar ffordd Cwm Main a chywiro gwter ar y A494 ger Cynlas - roedd trefniadau mewn llaw i ysgubo'r ffyrdd ac i archwilio'r ffosydd i weld os oedd angen eu hagor yng Nghwm Main. Byddant yn monitro'r broblem ger Cynlas.
- h) Difrod i'r ffordd o Four Crosses, Glanrafon i'r Tollgate, Maerdy – roedd y gweithlu am lenwi'r tyllau gwaetha ac yn gobeithio bydd arian ar gael yn y flwyddyn ariannol newydd i wneud gwaith mwy parhaol yma.

iii) Ymateb yr Adran Cefnffyrdd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf am ddiogelwch y gyrwyr ar yr A494, Corwen i'r Bala:-

Cafwyd cadarnhad bod diogelwch y ffordd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn seiliedig ar adroddiadau gan yr heddlu ar wrthdrawiadau ac roedd y Gweinidog. Edwina Hart wedi gofyn i'r swyddogion ystyried sylwadau'r Cyngor fel rhan o'r gwaith hwnnw. Roedd mesuriadau wedi ei rhoi ar waith yn ddiweddar ar y rhan yma o'r ffordd a bydd effaith y mesurau hynny'n cael eu monitro hefyd.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod i drafod Ffair Y Bala.

b) Un Llais Cymru.

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nhywyn ar y 25/5/15.

c) Pwyllgor Coffau Canmlwyddiant: Fron-goch, 1916-2016.

i) Derbyniwyd gwahoddiad i'r cynghorwyr ymuno a'r gweithgareddau ar Fehefin 11eg i goffau'r canmlwyddiant.

d) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C16/0245/04/LL – Myndefa gerbydol newydd. Dyffryn Tawel, Glanrafon.

C16/0247/04/LL - Dymchwel estyniad presennol a chodi estyniadau i gefn ac ochr yr annedd. The Boot, Bethel.

C16/0333/04/LL – Cais i ddiwygio amod 5 ynghlwm a caniatad cynllunio C04M/0038/04/LL er mwyn caniatáu cyflwyno cynllun adfer ac ol ofal er cymeradwyaeth o fewn 12 mis i ddatgomisiynu'r tyrbinnau gwynt.

NP5/63/AD273 – Caniatad Hysbyseb i arddangos un panel gwybodaeth wedi ei osod ar garreg plinth. Cilfan oddi ar A4212, Frongoch.

Gan fod Cyngor Gwynedd eisiau ymateb cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod y ceisiadau a chytunwyd i'w cefnogi.

dd) Materion Ariannol.

i) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £4,450.

ii) Rheolydd Pensiynau.

Derbyniwyd llythyr yn atgoffa'r Cyngor o'i dyletswyddau cyfreithiol newydd i ymwneud a chofrestru staff ar gyfer cynllun pensiwn. Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau ac nid oedd angen i'r Cyngor cymryd unrhyw gamau cyn y dyddiad gweithredu ym mis Mai 2017.

iii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

John Roberts (archwilio cyfrifon 2015-16)

Came & Company (Yswiriant)

iv) Derbyniwyd cais i gyfrannu'n ariannol at weithgareddau elusennol a lles Canolfan yr Henblas. Cyn trafod unrhyw gyfraniad cytunwyd i ofyn am eu mantolen ariannol a chynllun busnes diweddar. Cynigwyd y dylid trefnu cyfarfod rhwng cynghorau Penllyn er mwyn cael diweddariad ar waith Cwmni Pum Plwy Penllyn. Gofynnwyd i'r clerc i drafod y cynnig yma gyda chydlynnydd y Cwmni.

e) Unrhyw Fater Arall

i) Llwybr troed Bala i Lanfor.

Derbyniwyd cwynion am y sbwriel ar ochr y ffordd a'r gwartheg yn baeddu'r llwybr wrth groesi i gael ei godro yn Rhiwlas. Cafwyd cadarnhad bod y clerc wedi pasio'r gwyn am y sbwriel ymlaen i Gyngor Gwynedd. Roedd y clerc hefyd wedi cysylltu â Rhiwlas ynglŷn â'r baw a chafwyd ymddiheuriad am y unrhyw anghyfleustra a achoswyd ac roedd camau wedi eu cymryd i gadw'r safle yn lan.

ii) Biniau ailgylchu Nantgau, Cwmtirmynach.

Heb wybod i'r Cyngor roedd Gyngor Gwynedd wedi penderfynu gosod rac i ddal bocsys ail gylchu yn lle'r biniau 240litr. Roedd y cynghorwyr yn siomedig na thrafodwyd hyn gyda hwy cyn gwneud y newidiadau yn enwedig gan fod y Cyngor wedi anfon nifer o gwynion am y safle dros y blynyddoedd. Gyda'r system newydd nid oedd digon o focsys i'r nifer a oedd yn fod i ddefnyddio'r safle. Gofynnwyd i'r clerc yrru llythyr i'r prif swyddog i ddatgan anedwydd y Cyngor.